



Home Office

Y Swyddfa Gartref

**Canllawiau ar y Cynllun Cofrestru
Dylanwad Tramor (FIRS): Pwerau
tramor penodedig neu endidau a
reolir gan bwerau tramor - Rwsia**

Ebrill 2025



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/collections/foreign-influence-registration-scheme-specified-persons-guidance>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn FIRS@homeoffice.gov.uk.

Guidance on the Foreign Influence Registration Scheme (FIRS): Specified foreign powers or foreign power-controlled entities - Russia

Canllawiau ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS): Pwerau tramor penodedig neu endidau a reolir gan bwerau tramor - Rwsia

Cynnwys

Rhestr termau allweddol	3
Pennod 1: Ynglŷn â'r Canllawiau hyn	4
Pennod 2: Cyflwyniad i'r cynllun	5
Gofynion y cynllun (yr haen uwch yn unig)	5
Esemptiadau	5
Troseddau a Chosbau	6
Rhyngweithio â deddfwriaeth arall y llywodraeth	6
Pennod 3: Pwerau tramor Rwsiaidd penodedig ac endidau a reolir gan bwerau tramor	7
Gweithgarwch Perthnasol	8
Mewn swyddogaeth gyhoeddus	8
Unigolion sy'n gweithredu ar ran pŵer tramor penodol neu endid a reolir gan bŵer tramor	9
Pennod 4: Manylion pellach ar bwerau tramor Rwsiaidd penodedig ac endidau a reolir gan bwerau tramor	10
Endidau penodedig a reolir gan Rwsia	16

Rhestr termau allweddol

FIRS	Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor. Y Cynllun a gyflwynwyd trwy Ran 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023.
Trefniant	Unrhyw fath o gytundeb, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Gallai hyn gynnwys contract, memorandwm dealltwriaeth (MOU) neu gytundeb neu drefniant anffurfiol quid pro quo.
Pŵer tramor	Mae gan hyn yr ystyr a roddir gan Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023.
Gweithgareddau dylanwad gwleidyddol	Cyfathrebiad, cyfathrebiad cyhoeddus neu ddarpariaeth o arian, nwyddau neu wasanaethau gyda'r bwriad o ddylanwadu ar fater gwleidyddol.
Esemptiad rhag cofrestru	Amgylchiad lle nad yw gofynion cofrestru yn berthnasol.
Person	Unigolyn neu berson arall nad yw'n unigolyn, fel cwmni.
Cofrestrai	Person y mae'n ofynnol iddo gofrestru o dan FIRS.
Hysbysiad gwybodaeth	Hysbysiad a gyhoeddir o dan adran 75 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu rhagor o wybodaeth yn ymwneud â threfniadau neu weithgareddau y gellir eu cofrestru o dan FIRS.
Pŵer tramor penodedig	Pŵer tramor sydd wedi'i bennu trwy reoliadau o dan haen uwch FIRS.
Endid penodedig dan reolaeth pŵer tramor (FPCE)	Endid sy'n cael ei reoli gan bŵer tramor, ac sydd wedi'i bennu trwy reoliadau o dan haen uwch FIRS.

Pennod 1: Ynglŷn â'r Canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi rhagor o fanylion am y pwerau tramor Rwsiaidd ac endidau a reolir gan bwerau tramor sydd wedi'u pennu ar hyn o bryd o dan y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS).

Mae'r canllawiau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer y rhai sydd am wybod mwy am y pwerau tramor penodedig hyn neu endidau penodedig a reolir gan bwerau tramor, gan gynnwys y rhai sy'n ystyried y gallent fod mewn trefniant cofrestru gyda phŵer tramor Rwsiaidd penodedig neu endid penodedig a reolir gan bwerau tramor Rwsiaidd i gynnal gweithgarwch yn y DU. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i endid penodedig a reolir gan bwerau tramor Rwsiaidd a allai fod angen cofrestru eu gweithgarwch eu hunain yn y DU gyda'r cynllun.

Gellir dod o hyd i ganllawiau mwy cynhwysfawr ar haen uwch FIRS a'i ofynion, gan gynnwys esemptiadau i gofrestru a throeddau a chosbau [yma](#). Dylid darllen y canllawiau mwy cynhwysfawr hynny ar y cyd â'r canllawiau hyn.

Gan mai dim ond o dan haen uwch FIRS y gellir pennu pwerau tramor neu endidau a reolir gan bwerau tramor, mae unrhyw ganllawiau a gynhwysir yn y ddogfen hon yn ymwneud â'r **haen uwch yn unig** ac nid ydynt yn berthnasol i haen dylanwad gwleidyddol FIRS. Am ragor o wybodaeth ynghylch gofynion haen dylanwad gwleidyddol FIRS, ymgynghorwch â'r [canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol](#).

Pennod 2: Cyflwyniad i'r cynllun

1. Mae FIRS yn gynllun dwy haen sy'n galluogi tryloywder dylanwad tramor yng ngwleidyddiaeth y DU ac yn rhoi mwy o sicrwydd ynghylch gweithgareddau rhai pwerau neu endidau tramor a allai beri risg i ddiogelwch a buddiannau'r DU. Mae wedi'i gynnwys yn Rhan 4 o'r Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023.

Gofynion y cynllun (yr haen uwch yn unig)

2. Mae'r haen uwch yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru gweithgaredd perthnasol yn y DU lle mae person yn gweithredu ar gyfarwyddyd pwerau tramor penodedig neu endidau a reolir gan bŵer tramor. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor gofrestru gweithgareddau perthnasol y maent yn eu cynnal eu hunain yn y DU.
3. Gellir pennu pŵer tramor neu endid a reolir gan bŵer tramor o dan haen uwch FIRS lle ystyrir bod hyn yn rhesymol angenrheidiol i amddiffyn diogelwch neu fuddiannau'r DU.
4. Oni nodir yn wahanol, mae gweithgaredd perthnasol yn golygu unrhyw weithgaredd. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, weithgaredd masnachol, gweithgaredd academiaidd ac ymchwil a gweithgaredd elusennol.
5. Ni fydd ffi i gofrestru gyda'r cynllun a dim ond pan fydd yn ymwneud â gweithgareddau dylanwad gwleidyddol y bydd gwybodaeth a gofrestrir o dan haen uwch y cynllun yn cael ei chyhoeddi. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y wybodaeth a gyhoeddir yn y canllawiau ar y wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus.
6. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion haen uwch y cynllun yn y canllawiau ar yr haen uwch.

Esemptiadau

7. Mae sawl esemptiad rhag cofrestru o dan haen uwch FIRS. Y rhain yw:
 - Unrhyw un sy'n gweithredu fel rhan o drefniant y mae Corff Coron y DU yn rhan ohono (er enghraifft, y rhai mewn trefniant amlochrog gyda llywodraeth y DU a llywodraethau tramor penodedig);
 - Unigolion sy'n gweithredu dros bŵer tramor yn eu swyddogaeth swyddogol fel cyflogeion, er enghraifft diplomyddion tramor sydd wedi'u lleoli yn y DU;
 - Aelodau o'r teulu (gan gynnwys partneriaid di-briod) staff cenadaethau diplomyddol, swyddi consylaidd neu genadaethau parhaol sefydliadau

rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn y DU, lle maent yn cefnogi gweithgareddau swyddogol aelod o'u teulu;

- Cyfreithwyr, wrth iddynt ddarparu gwasanaethau cyfreithiol i bwerau tramor (er enghraifft, y rhai sy'n cynrychioli pwerau tramor penodedig mewn achos llys);
- Y rhai sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau sy'n rhesymol angenrheidiol i weithrediad cenhadaeth ddiplomyddol, swydd consylaidd neu genhadaeth barhaol sefydliad rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn y DU;
- Unrhyw un sy'n gweithredu fel rhan o drefniant y mae corff cyhoeddus y DU yn rhan ohono;
- Y rhai sy'n cynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â threfniant addysg a ariennir (er enghraifft, ysgoloriaeth);
- Gwasanaethau gweinyddol a thechnegol y llywodraeth (er enghraifft, gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi pasbortau neu fisâu).

8. Mae rhagor o wybodaeth am esemptiadau ar gael yn y [canllawiau ar yr haen uwch](#).

Troseddau a Chosbau

9. Mae'r cynllun yn cynnwys sawl trosedd, gan gynnwys ar gyfer y rhai sy'n methu â chydymffurfio â gofynion cofrestru, neu sy'n methu ag ymateb i hysbysiadau gwybodaeth. Lle nad yw gofynion cofrestru wedi'u bodloni, mae troseddau hefyd ar gyfer y rhai sy'n cyflawni gweithgareddau yn unol â threfniant perthnasol. Lle credir bod trosedd wedi digwydd, bydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo i'r heddlu. Mae cosbau troseddol yn gysylltiedig â'r troseddau hyn. Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan yr haen uwch yn atebol, ar gollfarn ar gyhuddiad, i garchar am gyfnod nad yw'n fwy na 5 mlynedd neu i ddirwy (neu'r ddau).

10. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am droseddau a chosbau yn y [canllawiau ar yr haen uwch](#).

Rhyngweithio â deddfwriaeth arall y llywodraeth

11. Gall rhai pwerau tramor penodedig neu endidau a reolir gan bwerau tramor fod yn destun rheolaethau eraill gan lywodraeth y DU, er enghraifft sancsiynau neu rewi asedau. Nid yw cofrestru gyda FIRS yn ddewis arall yn lle'r rheolaethau hyn a chyfrifoldeb yr unigolyn sy'n cofrestru yw sicrhau eu bod hefyd yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth arall gan lywodraeth y DU a allai fod yn berthnasol iddynt.

12. Lle bo'n berthnasol, efallai y bydd angen i gofrestreion gydymffurfio â chynlluniau cyfreithiol eraill o hyd, fel y Ddeddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol, yn ogystal â FIRS. Nid yw cofrestru gyda FIRS yn rhyddhau unigolion o'r cyfrifoldeb i gydymffurfio â'r cynlluniau perthnasol eraill hyn.

Pennod 3: Pwerau tramor Rwsiaidd penodedig ac endidau a reolir gan bwerau tramor

13. The following Russian foreign powers and foreign power-controlled entities are specified under the enhanced tier of FIRS:

- a. Arlywydd Rwsia (yn eu swyddogaeth gyhoeddus);
- b. Llywodraeth Rwsia (gan gynnwys unrhyw ran o'r llywodraeth) a'i holl asiantaethau ac awdurdodau gan gynnwys:
 - i. Swyddfa Weithredol yr Arlywydd (Gweinyddiaeth Arlywydd Ffederasiwn Rwsia);
 - ii. Y Cyngor Diogelwch (Cyngor Diogelwch Ffederasiwn Rwsia);
 - iii. Y Cyngor Gwladol (Sovet Gosudarstvennyy Rossiyskoy Federatsii);
 - iv. Pob Gweinidog (yn rhinwedd y swydd honno);
 - v. Pob Gweinidogaeth (gan gynnwys y Weinyddiaeth Mewnol);
 - vi. Y lluoedd arfog gan gynnwys:
 - Milwyr Daeir (Sukhoputnye voyskia- SV);
 - Llynges (Voyenno-Morskoy Flot-VMF);
 - Lluoedd Awyrofod (Lluoedd awyrofod - VKS);
 - Milwyr yn yr Awyr (Vozdushno-desantnyye voyska- VDV);
 - Lluoedd Roced Strategol (Raketnyye voyska stratgicheskogo naznacheniya - RVSN);
 - Lluoedd Gweithredu Arbennig (Sily spetsialnykh operatsii- SSO).
 - vii. Gwasanaeth Milwyr Gwarchodlu Cenedlaethol Ffederal (Federalnaya sluzhba voysk natsionalnoy gvardii);
 - viii. Gwasanaethau Diogelwch Ffederal (Federal'naya sluzhba bezopasnosti Rossiyskoy Federatsii - FSB);
 - ix. Unrhyw wasanaethau cudd-wybodaeth eraill gan gynnwys y Prif Gyfarwyddiaeth Cudd-wybodaeth (Glavnoye upravleniye General'nogo shtaba Vooruzhonnykh sil Rossiyskoy Federatsii - GRU) a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Dramor (Sluzhba Vneshney Razvedki Rossiyskoy Federatsii - SVR);
 - x. Llywodraeth gwrthrych ffederal o Rwsia.
- c. Cynulliad Ffederal Rwsia (gan gynnwys naill ai'r Cyngor Ffederasiwn (Sovet Federatsii) neu Dwma'r Wladwriaeth (Gosudarstvennaya дума);
- d. Barnwriaeth Rwsia;
- e. Plaid Rwsia Unedig (Vserossiyskaya politicheskaya partiya "Yedinaya Rossiya");
- f. Plaid Gomiwnyddol Rwsia (Kommunisticheskaya Partiya Rossiyskoy Federatsii)

- g. Plaid Ddemocrataidd Ryddfrydol Rwsia (Rhyddfrydol' no-demokraticheskaya partiya Rossii);
- h. Plaid Rwsia Cyfiawn (Spravedlivaya Rossiya- Za pravdu).

14. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am y pwerau tramor Rwsiaidd penodedig hyn ac endidau a reolir gan bwerau tramor ym [mhennod 4](#).

Gweithgarwch Perthnasol

15. Mae gweithgarwch perthnasol mewn perthynas â'r rhestr gyfredol o bwerau tramor Rwsiaidd penodedig ac endidau a reolir gan bwerau tramor yn golygu unrhyw weithgarwch. Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i weithgarwch masnachol, gweithgarwch cyfryngau, gweithgarwch elusennol, a gweithgarwch academiaidd ac ymchwil.

Mewn swyddogaeth gyhoeddus

16. Dim ond pan fyddant yn gweithredu yn eu swyddogaeth gyhoeddus neu Weinidogol y pennir Arlywydd Ffederasiwn Rwsia a Gweinidogion Ffederasiwn Rwsia.

17. Er mwyn i drefniant gyda phŵer tramor penodedig o'r fath fod yn gofrestradwy, mae'n rhaid i'r pŵer tramor penodedig fod yn cyfarwyddo gweithgarwch cofrestradwy yn eu swyddogaeth swyddogol e.e. fel Gweinidog Ffederasiwn Rwsia. Er enghraifft, pan fydd Gweinidog Amddiffyn Ffederasiwn Rwsia yn cyfarwyddo unigolyn i fynychu symposiwm diwydiant amddiffyn yn y DU ac adrodd yn ôl ar y trafodaethau yn y symposiwm, bydd angen i'r unigolyn gofrestru gyda FIRS.

18. Pan fydd pŵer tramor penodedig yn cyfarwyddo rhywun yn eu swyddogaeth breifat fel unigolyn, ni fydd angen cofrestru hyn gyda FIRS. Er enghraifft, os yw Gweinidog Amaethyddiaeth Ffederasiwn Rwsia yn ymweld â Llundain ar wyliau gyda'u teulu ac yn cyfarwyddo asiant teithio yn y DU i drefnu eu taith, nid oes angen i'r asiant teithio gofrestru gyda FIRS gan fod y Gweinidog Amaethyddiaeth yn gweithredu yn eu swyddogaeth breifat fel unigolyn, yn hytrach nag yn eu swyddogaeth swyddogol fel Gweinidog Amaethyddiaeth.

Unigolion sy'n gweithredu ar ran pŵer tramor penodol neu endid a reolir gan bŵer tramor

19. Os ffurfir trefniant gyda chyflogwr pŵer tramor penodedig neu endid a reolir gan bŵer tramor (wrth weithredu yn y swyddogaeth hon), caiff ei drin fel trefniant gyda phŵer neu endid tramor penodedig. Er enghraifft, os yw person yn ymrwymo i drefniant gyda gwas sifil o bŵer tramor penodedig mewn perthynas â'i rôl fel gwas sifil, byddai'r amod yn cael ei fodloni. Ni fyddai person sy'n ymrwymo i drefniant gyda gwas sifil o bŵer tramor penodedig ar fater nad yw'n gysylltiedig â'i rôl fel gwas sifil (e.e. os ydynt ar wahân yn ymddiriedolwr elusen) yn bodloni'r amod.

Pennod 4: Manylion pellach ar bwerau tramor Rwsiaidd penodedig ac endidau a reolir gan bwerau tramor

20. Mae'r adran hon o'r canllawiau yn darparu rhagor o wybodaeth am bob un o'r pwerau tramor Rwsiaidd penodedig ac endidau a reolir gan bwerau tramor. Mae hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r rhai a allai fod mewn trefniadau gyda'r pwerau a'r endidau hyn i'w galluogi i wybod a oes angen iddynt gofrestru gyda'r cynllun.

Rwsia fel pŵer tramor penodedig

Arlywydd Rwsia (yn ei swyddogaeth gyhoeddus)

21. Arlywydd Rwsia yw'r awdurdod uchaf yn Ffederasiwn Rwsia. Mae Cyfansoddiad Ffederasiwn Rwsia yn rhoi rôl pennaeth gwladwriaeth Rwsia iddo, gan gynrychioli Ffederasiwn Rwsia yn ddomestig a thramor, yn ogystal â bod yn Brif Gomander Lluoedd Arfog Ffederasiwn Rwsia¹.

Enghraifft o drefniant cofrestradwy gydag Arlywydd Rwsia (yn eu swyddogaeth gyhoeddus)):

Mae cyfarwyddwr cwmni technoleg o Rwsia yn teithio i'r DU i fynychu cynhadledd ar ddyfodol deallusrwydd artifisial. Mae gan y cyfarwyddwr gysylltiadau ag Arlywydd Rwsia sy'n eu cyfarwyddo i gymryd nodiadau am y gynhadledd a'i mynychwyr a'u trosglwyddo i Weinyddiaeth Wyddoniaeth ac Addysg Uwch Rwsia. Er nad yw'r cyfarwyddwr yn cael ei dalu i wneud hyn, maen nhw'n gwybod y bydd cyflawni cyfarwyddyd gan yr Arlywydd o fudd iddyn nhw os byddan nhw'n ei gyflawni, gan agor cyfleoedd busnes yn y dyfodol o bosibl. I'r gwrthwyneb, mae'r cyfarwyddwr hefyd yn gwybod y byddai peidio â chyflawni'r cyfarwyddyd hwn yn debygol o fod yn anfantais iddyn nhw, gan gynnwys i'w busnes, oherwydd y pŵer sydd gan yr Arlywydd.

Mae hwn yn drefniant cofrestradwy gan fod cyfarwyddwr y cwmni technoleg yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig (Arlywydd Rwsia) i gynnal gweithgarwch yn y DU (cymryd nodiadau mewn cynhadledd yn y DU a throsglwyddo'r rhain i Weinyddiaeth Wyddoniaeth ac Addysg Uwch Rwsia). Dylai cyfarwyddwr y cwmni technoleg gofrestru'r trefniant hwn o fewn 10 diwrnod ac ni all fynychu'r gynhadledd a chymryd y nodiadau nes bod y trefniant wedi'i gofrestru.

¹ [1680a1a237 \(coe.int\)](https://coe.int/1680a1a237)

Llywodraeth Rwsia (gan gynnwys unrhyw ran o'r Llywodraeth) a'i holl asiantaethau ac awdurdodau

22. Llywodraeth Rwsia yw'r grŵp o bobl sy'n rheoli Ffederasiwn Rwsia yn swyddogol. Yn ôl Erthygl 110 o gyfansoddiad Rwsia, mae Llywodraeth Ffederasiwn Rwsia yn cynnwys Cadeirydd Llywodraeth Ffederasiwn Rwsia (a elwir yn gyffredin yn Brif Weinidog), dirprwy gadeiryddion Llywodraeth Ffederasiwn Rwsia (a elwir yn gyffredin yn Ddirprwy Brif Weinidogion) a gweinidogion ffederal. Darperir mwy o fanylion am bob un o'r rolau hyn isod.
23. Bwriad y rhestr isod yw rhoi rhagor o fanylion am yr hyn a olygir gan Lywodraeth Rwsia a'i hasiantaethau a'i hawdurdodau. Nid yw'r rhestr hon i fod yn gynhwysfawr gan fod nifer o asiantaethau ac awdurdodau yn Rwsia, ac nid yw'n bosibl eu rhestru i gyd yn y canllawiau hyn. Ar ben hynny, mae enwau'r rhain yn destun newid dros amser.

Swyddfa Weithredol yr Arlywydd ²

24. Mae Swyddfa Weithredol yr Arlywydd yn darparu cymorth i waith yr Arlywydd ac yn monitro gweithrediad penderfyniadau'r Arlywydd. Mae hyn yn cynnwys paratoi deddfau drafft i'r Arlywydd eu cyflwyno i'r Dwma Gwladol (rhan o Gynulliad Ffederal Rwsia sef Senedd Rwsia) fel mentrau deddfwriaethol.

Y Cyngor Diogelwch

25. Mae'r Cyngor Diogelwch yn gorff sydd wedi'i fandadu yn gyfansoddiadol ac sy'n cael ei gadeirio gan Arlywydd Ffederasiwn Rwsia. Mae'n adran ar wahân o Swyddfa Weithredol yr Arlywydd sy'n gyfrifol am bennu polisi'r wladwriaeth ar ddiogelwch a helpu'r Arlywydd i gyflawni ei ddyletswyddau wrth "...amddiffyn hawliau dynol a hawliau sifil, yn ogystal â sofraniaeth, annibyniaeth a chyfanrwydd tiriogaethol Rwsia"³.

Cyngor y Wladwriaeth

26. Corff gwladwriaethol cyfansoddiadol a ffurfiwyd gan yr Arlywydd i gydlyn swyddogaethau cyrff gwladwriaethol, a hwyluso cydweithrediad rhyngddynt, diffinio prif feysydd polisi domestig a thramor a blaenoriaethau datblygiad economaidd-gymdeithasol cenedlaethol⁴.

² [Swyddfa Weithredol yr Arlywydd · Strwythur · Arlywydd Rwsia \(kremlin.ru\)](#)

³ [Y Cyngor Diogelwch · Strwythur · Arlywydd Rwsia \(kremlin.ru\)](#)

⁴ [Cyngor y Wladwriaeth · Strwythur · Arlywydd Rwsia \(kremlin.ru\)](#)

Pob Gweinidog (yn rhinwedd eu swyddogaeth fel Gweinidogion))

27. Mae gweinidogion yn aelodau o Lywodraeth Ffederasiwn Rwsia ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau penodol fel rhan o'r rôl honno ⁵.

28. Mae nifer o Weinidogion yn Ffederasiwn Rwsia ar unrhyw adeg benodol ⁶, sy'n cynnwys ar hyn o bryd:

- a. Penodir **y Prif Weinidog** gan yr Arlywydd i weithredu fel pennaeth y Llywodraeth. Maent yn gyfrifol am gadeirio Cabinet y Gweinidogion, byddant yn gweithredu fel Arlywydd os na all yr Arlywydd gyflawni eu dyletswyddau ac mae nifer o weinidogaethau ffederal yn adrodd yn uniongyrchol iddynt, gan gynnwys y Weinyddiaethau Addysg ac Iechyd⁷.
- b. **Dirprwy Brif Weinidogion**. Ar hyn o bryd mae 10 dirprwy brif weinidog yn Ffederasiwn Rwsia ⁸.
- c. **Gweinidogion Ffederal sy'n gyfrifol am weinyddiaethau ffederal (adrannau'r llywodraeth)**. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - i. Gweinidog Diwydiant a Masnach
 - ii. Gweinidog Amddiffyn
 - iii. Gweinidog Datblygu Dwyrain Pell Rwsia a'r Arctig
 - iv. Gweinidog Cyfiawnder
 - v. Gweinidog Chwaraeon
 - vi. Gweinidog Adeiladu, Tai a Chyfleustodau
 - vii. Gweinidog Gwyddoniaeth ac Addysg Uwch
 - viii. Gweinidog Cartref
 - ix. Gweinidog Llafur a Gwarchod Cymdeithasol
 - x. Gweinidog Adnoddau Naturiol
 - xi. Gweinidog Addysg
 - xii. Gweinidog Amddiffyn Sifil, Argyfyngau a Chymorth Trychinebau
 - xiii. Gweinidog Materion Tramor
 - xiv. Gweinidog Amaethyddiaeth
 - xv. Gweinidog Diwylliant
 - xvi. Gweinidog Gofal Iechyd
 - xvii. Gweinidog Datblygu Economaidd
 - xviii. Gweinidog Datblygu Digidol, Cyfathrebu a'r Cyfryngau Torfol
 - xix. Gweinidog Cyllid
 - xx. Gweinidog Trafnidiaeth
 - xxi. Gweinidog Ynni
- d. **Dirprwy Weinidogion i'r Gweinidogion Ffederal a restrir uchod.**

⁵ [1680a1a237 \(coe.int\)](https://www.coe.int/t/t09/efsr/efsr_en.asp)

⁶ [Uwch Swyddogion Llywodraeth Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

⁷ [FACTBOX: Arlywydd a phrif weinidog Rwsia: pwy sy'n gwneud beth? | Reuters](#)

⁸ [Uwch Swyddogion Llywodraeth Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

Pob Gweinidogaeth (gan gynnwys y Weinyddiaeth Fewnol)

29. Adrannau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ddyddiol meysydd cyfrifoldeb y llywodraeth yw gweinidogaethau ffederal Ffederasiwn Rwsia. Maent yn drafftio ac yn gweithredu polisi'r llywodraeth ac yn cynnal rheoleiddio cyfreithiol nifer o feysydd.
30. Mae nifer o weinidogaethau ffederal yn Ffederasiwn Rwsia ar unrhyw adeg benodol sydd ar hyn o bryd yn cynnwys⁹:
- a. **Y Weinyddiaeth Amddiffyn Sifil, Argyfyngau a Chymorth Trychinebau** ¹⁰- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am amddiffyn sifil, amddiffyn dinasyddion a thiriogaethau rhag argyfyngau naturiol ac argyfyngau a wneir gan ddynion a darparu diogelwch rhag tân a dŵr.
 - b. **Y Weinyddiaeth Amddiffyn** ¹¹- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am amddiffyn a rheolaeth ddyddiol Lluoedd Arfog Rwsia, gan gynnwys rheoli ei heiddo.
 - c. **Y Weinyddiaeth Materion Mewnol** ¹²- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am faterion mewnol, megis diogelwch domestig a mudo.
 - d. **Y Weinyddiaeth Materion Tramor** ¹³-mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am gysylltiadau tramor Rwsia.
 - e. **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder** ¹⁴-mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am y system gosbi, yn ogystal â chofrestru sefydliadau di-elw gan gynnwys canghennau o sefydliadau rhwyngwladol a sefydliadau anllywodraethol di-elw tramor, pleidiau gwleidyddol, cymdeithasau cyhoeddus eraill a sefydliadau crefyddol.
 - f. **Y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth** ¹⁵- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am amaethyddiaeth a diwydiannau cysylltiedig gan gynnwys ffermio da byw, cynhyrchu cynydau a'r diwydiant bwyd a phrosesu bwyd.
 - g. **Y Weinyddiaeth Adeiladu, Tai a Chyfleustodau** ¹⁶- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am adeiladu, pensaernïaeth, datblygu trefol, tai a chyfleustodau..
 - h. **Y Weinyddiaeth Ddiwylliant** ¹⁷-mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am ddiwylliant, y celfyddydau, treftadaeth hanesyddol a diwylliannol a thwristiaeth.

⁹ [Gweinidogaethau ac Asiantaethau - Llywodraeth Rwsia](#)

¹⁰ [Gweinyddiaeth Amddiffyn Sifil, Argyfyngau a Chymorth Trychinebau Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

¹¹ [Gweinyddiaeth Amddiffyn Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

¹² [Gweinyddiaeth Materion Mewnol Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

¹³ [Gweinyddiaeth Materion Tramor Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

¹⁴ [Gweinyddiaeth Gyfiawnder Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

¹⁵ [Gweinyddiaeth Amaethyddiaeth Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

¹⁶ [Gweinyddiaeth Adeiladu, Tai a Chyfleustodau Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

¹⁷ [Gweinyddiaeth Diwylliant Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

- i. **Y Weinyddiaeth dros Ddatblygu'r Dwyrain Pell a'r Arctig Rwsiaidd**¹⁸-mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am weithredu rhaglenni gwladol a rhaglenni ffederal wedi'u targedu yn Nwyrain Pell ac Arctig Rwsia.
- j. **Y Weinyddiaeth Datblygu Digidol, Cyfathrebu a'r Cyfryngau Torfol**¹⁹-mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am delathrebu, cyfryngau torfol, TG a gwasanaethau post.
- k. **Y Weinyddiaeth Datblygu Economaidd**²⁰- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am ddadansoddi a rhagweld economaidd-gymdeithasol, datblygu busnes, gan gynnwys busnesau bach a chanolig a diogelu hawliau endidau cyfreithiol ac entrepreneuriaid hunangyflogedig.
- l. **Y Weinyddiaeth Addysg**²¹- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am addysg gyffredinol, hyfforddiant galwedigaethol a gofal plant a rhianta.
- m. **Y Weinyddiaeth Ynni**²²- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am y sector olew a thanwydd gan gynnwys materion sy'n ymwneud â phŵer trydan a ffynonellau ynni adnewyddadwy.
- n. **Y Weinyddiaeth Gyllid**²³- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am gyllideb, treth, yswiriant, cyfnewid tramor a bancio.
- o. **Y Weinyddiaeth Iechyd**²⁴- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am ofal iechyd, mesurau atal clefydau a chynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion meddygol.
- p. **Y Weinyddiaeth Ddiwydiant a Masnach**²⁵- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am y sectorau diwydiannol ac amddiffyn, gan gefnogi allforion diwydiannol a rheoleiddio technegol.
- q. **Y Weinyddiaeth Lafur a Gwarchod Cymdeithasol**²⁶- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am amodau a gwarchodaeth llafur yn ogystal â nawdd cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.
- r. **Y Weinyddiaeth Adnoddau Naturiol a'r Amgylchedd**²⁷- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am archwilio, defnyddio, atgynhyrchu a diogelu adnoddau naturiol.
- s. **Y Weinyddiaeth Wyddoniaeth ac Addysg Uwch**²⁸- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am wyddoniaeth ac addysg uwch.
- t. **Y Weinyddiaeth Chwaraeon**²⁹- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am ffitrwydd corfforol a chwaraeon.

¹⁸ [Gweinyddiaeth Datblygu'r Dwyrain Pell a'r Arctig Rwsiaidd - Llywodraeth Rwsia](#)

¹⁹ [Gweinyddiaeth Datblygu Digidol, Cyfathrebu a'r Cyfryngau Torfol Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²⁰ [Gweinyddiaeth Datblygu Economaidd Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²¹ [Gweinyddiaeth Addysg Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²² [Gweinyddiaeth Ynni Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²³ [Gweinyddiaeth Gyllid Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²⁴ [Gweinyddiaeth Iechyd Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²⁵ [Gweinyddiaeth Diwydiant a Masnach Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²⁶ [Gweinyddiaeth Lafur a Gwarchod Cymdeithasol Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²⁷ [Gweinyddiaeth Adnoddau Naturiol a'r Amgylchedd Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²⁸ [Gweinyddiaeth Gwyddoniaeth ac Addysg Uwch Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

²⁹ [Gweinyddiaeth Chwaraeon Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

- u. **Y Weinyddiaeth Drafnidiaeth**³⁰- mae'r Weinyddiaeth hon yn gyfrifol am awyrennu sifil, dŵr domestig, rheilffyrdd a thrafnidiaeth modur.

Y Lluoedd Arfog

31. Lluoedd Arfog Rwsia yw milwyr Rwsia ac maent yn gyfrifol am amddiffyn tiriogaeth Ffederasiwn Rwsia³¹. Mae'n cynnwys y breichiau canlynol: y Lluoedd Daear, y Llynges, Lluoedd Awyrofod, Lluoedd Awyrennol, Lluoedd Rocedi Strategol a Lluoedd Gweithrediadau Arbennig.

Gwasanaeth Milwyr Gwarchodlu Cenedlaethol Ffederal (Rosguard)³²

32. Ar wahân i Lluoedd Arfog Rwsia, mae'r Rosguard yn gyfrifol am ddiogelu ffiniau Rwsia, rheoli gynnau, ymladd yn erbyn terfysgaeth a throseddau cyfundrefnol, amddiffyn trefn gyhoeddus a gwarchod cyfleusterau allweddol y wladwriaeth.

Gwasanaethau Diogelwch Ffederal (FSB)³³

33. Mae'r FSB yn gyfrifol am weithredu polisi'r llywodraeth ym maes diogelwch cenedlaethol Ffederasiwn Rwsia, gwrthderfysgaeth, amddiffyn a diogelu ffin gwladwriaeth Rwsia, amddiffyn ffiniau ac adnoddau morwrol Rwsia a sicrhau diogelwch gwybodaeth Rwsia.

Unrhyw wasanaethau cudd-wybodaeth eraill

34. Mae gwasanaethau cudd-wybodaeth yn gyfrifol am gasglu, dadansoddi a manteisio ar wybodaeth i gyflawni nifer o swyddogaethau llywodraeth gwahanol, gan gynnwys gorfodi'r gyfraith, diogelwch cenedlaethol, milwrol, diogelwch y cyhoedd a pholisi tramor. Mae'r rhain yn cynnwys Prif Gyfarwyddiaeth Cudd-wybodaeth (GRU) Lluoedd Arfog Rwsia sy'n gyfrifol am gyflenwi cudd-wybodaeth filwrol i Arlywydd Rwsia³⁴ a'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Dramor (SVR) sef asiantaeth cudd-wybodaeth allanol Rwsia sydd â'r nod o amddiffyn unigolion, cymdeithas a gwladwriaeth Rwsia rhag bygythiadau allanol³⁵.

Enghraifft o drefniant y mae angen ei gofrestru:

Mae gwas sifil sy'n gweithio yng Ngweinyddiaeth Diwylliant Rwsia yn cysylltu â dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol yn y DU, sy'n eu cyfarwyddo i wneud a lanlwytho cyfres o TikToks am draddodiadau diwylliannol Rwsia yn gyfnewid am rannu hyn ar gyfryngau cymdeithasol Gweinyddiaeth Diwylliant Rwsia.

³⁰ [Gweinyddiaeth Trafnidiaeth Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

³¹ [Lluoedd arfog Rwsia \(europa.eu\)](#)

³² [Gwasanaeth Gwarchodlu Cenedlaethol Ffederal Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

³³ [Gwasanaeth Diogelwch Ffederal Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

³⁴ [Factbox -Beth yw asiantaeth cudd-wybodaeth filwrol GRU Rwsia? | Reuters](#)

³⁵ [Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Dramor Ffederasiwn Rwsia - Llywodraeth Rwsia](#)

Mae hwn yn drefniant y gellir ei gofrestru gan fod y dylanwadwr yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodol (Gweinyddiaeth Diwylliant Rwsia) i gynnal gweithgarwch yn y DU (gwneud a lanlwytho cyfres o TikToks am draddodiadau diwylliannol Rwsia).

Bydd angen i'r dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol gofrestru'r trefniant hwn o fewn 10 diwrnod. Ni ddylent gynnal unrhyw weithgarwch yn unol â'r trefniant hwn fel ffilmio a lanlwytho cynnwys nes bod y trefniant hwn wedi'i gofrestru.

Endidau penodedig a reolir gan Rwsia

35. Pan fo person mewn trefniant gyda'r endidau hyn lle mae'r endidau'n eu cyfarwyddo i gyflawni gweithgareddau perthnasol yn y DU (naill ai eu hunain neu drwy rywun arall) ac nad yw'r person hwnnw wedi'i eithrio rhag cofrestru, bydd angen iddynt gofrestru gyda'r cynllun. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion am y gofynion ar gyfer personau mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig neu endid a reolir gan bŵer tramor yn y [canllawiau ar yr haen uwch](#).
36. Mae'n rhaid i'r endidau hyn hefyd gofrestru gyda'r cynllun eu hunain lle maent yn cyflawni unrhyw weithgareddau perthnasol yn y DU.
37. Mae'r cyfrifoldeb am gofrestru gweithgareddau'r endid yn gorwedd gyda'r endid penodedig ac nid ei weithwyr unigol. Os yw nifer o gyflogeion yr endid yn ymwneud â gweithgaredd perthnasol, bydd un gofrestriad a gwblheir gan yr endid yn ddigonol; nid oes angen i gyflogeion unigol gofrestru ar wahân. Nid oes angen i endidau restru'r holl unigolion sy'n ymwneud â chyflawni'r gweithgareddau.

Cynulliad Ffederal Rwsia (gan gynnwys Cyngor y Ffederasiwn neu'r Dwma Gwladol))

38. Cynulliad Ffederal Rwsia yw senedd Rwsia ac mae'n cynnwys Cyngor y Ffederasiwn a'r Dwma Gwladol. Mae'n cyflawni'r swyddogaeth ddeddfwriaethol yn Rwsia sy'n golygu ei fod yn gyfrifol am basio deddfau a chymeradwyo cyllideb y Llywodraeth.
39. Cyngor y Ffederasiwn yw siambr uchaf senedd Rwsia ac mae'n cynnwys dau gynrychiolydd o bob un o wrthrychau ffederal Rwsia a hyd at 30 o gynrychiolwyr a benodir gan yr Arlywydd³⁶. Mae Cyngor y Ffederasiwn yn adolygu deddfau cyfansoddiadol ffederal a deddfau ffederal a gymeradwywyd neu a fabwysiadwyd gan y Dwma Gwladol, yn ogystal â drafftio deddfau ffederal neu gyfansoddiadol ar ei ben ei hun..

³⁶ [Cyngor Ffederasiwn Cynulliad Ffederal Ffederasiwn Rwsia | Cyngor Ffederasiwn Cynulliad Ffederal Ffederasiwn Rwsia](#)

40. Y Dwma Gwladol yw siambr isaf senedd Rwsia ac mae'n cynnwys 450 o aelodau³⁷. Ei phrif dasgau yw mabwysiadu cyfreithiau cyfansoddiadol a ffederal ffederal, rheoli gweithgaredd Llywodraeth Rwsia, penodi a diswyddo penaethiaid y Banc Canolog, Siambr Gyfrifon ac Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol, datgan amnest, a materion cydweithrediad seneddol rhwngwladol.

³⁷ [Y Dwma Gwladol](#)

Enghraifft o drefniant y mae angen ei gofrestru:

Mae aelod o'r Dwma Gwladol yn llogi cwmni lobïo yn y DU ar ran y Dwma Gwladol. Mae'r cwmni lobïo yn cael ei dalu i lobïo aelodau perthnasol o Lywodraeth y DU i geisio cynyddu gweithgarwch masnach rhwng y DU a Rwsia.

Mae hwn yn drefniant cofrestradwy gan fod y cwmni lobïo yn y DU yn cael ei gyfarwyddo gan endid penodol a reolir gan bŵer tramor (aelod o'r Dwma Gwladol) i gynnal gweithgarwch yn y DU (lobïo aelodau perthnasol o Lywodraeth y DU i gynyddu gweithgarwch masnach rhwng y DU a Rwsia).

Rhaid i'r cwmni lobïo yn y DU gofrestru hyn o fewn 10 diwrnod i wneud y trefniant ac ni all gynnal unrhyw weithgaredd yn unol â'r trefniant hwn nes ei fod wedi'i gofrestru.

Barnwriaeth Rwsia

41. Mae barnwriaeth Rwsia yn dyfarnu anghydfodau cyfreithiol ac yn gweinyddu cyfiawnder yn Rwsia ³⁸. Mae barnwriaeth Rwsia yn cynnwys:

- a. Llys Cyfansoddiadol Ffederasiwn Rwsia - Mae'r Llys Cyfansoddiadol yn gyfrifol am sicrhau bod deddfau Rwsia a wneir gan Gyngor y Ffederasiwn yn cyd-fynd â Chyfansoddiad Rwsia. Mae'n datrys anghydfodau rhwng cyrff y wladwriaeth yn ogystal â rhwng Ffederasiwn Rwsia a dinasyddion Ffederasiwn Rwsia ynghylch cyfansoddiadoldeb y ddeddf a sut mae'n cael ei chymhwyso. Mae'n cynnwys Llywydd ac Is-lywydd y Llys Cyfansoddiadol yn ogystal â barnwyr y Llys Cyfansoddiadol. Mae'r swyddi hyn yn cael eu henwebu gan Lywydd Ffederasiwn Rwsia a'u penodi gan Gyngor y Ffederasiwn.
- b. Goruchaf Lys Ffederasiwn Rwsia (llys awdurdodaeth gyffredinol uchaf) - Y Goruchaf Lys yw'r corff barnwrol uchaf yn Rwsia sy'n gyfrifol am ddatrys achosion sifil, anghydfodau masnachol, achosion troseddol, gweinyddol ac achosion eraill y gellir eu clywed gan y llysoedd awdurdodaeth gyffredinol isaf a llysoedd masnachol. Mae'n goruchwyllo gweithgarwch y llysoedd awdurdodaeth gyffredinol a'r llysoedd masnachol ac yn egluro materion arfer llys (sut mae'r llysoedd yn gweithredu). Mae'n cynnwys Prif Ustus y Goruchaf Lys, dirprwy brif ustusiaid a barnwyr. Mae'r swyddi hyn yn cael eu henwebu gan yr Arlywydd a'u cymeradwyo gan Gyngor y Ffederasiwn.
- c. Llysoedd isaf awdurdodaeth gyffredinol ³⁹ - O dan y Goruchaf Lys a ddisgrifiwyd uchod, mae sawl lefel o lysoedd awdurdodaeth gyffredinol:

³⁸ [1680a1a237 \(coe.int\)](https://www.co.int)

³⁹ [The Russian Judiciary \(Chapter 3\) - TELFA](#)

- i. Llysoedd Ynadon - Dyma'r lefel isaf o lys awdurdodaeth gyffredinol ac fe'u cyfeirir atynt weithiau hefyd fel "Llysoedd Ynadon Heddwch". Maent yn ymdrin ag achosion troseddol lle nad yw'r gosb uchaf yn fwy na thair blynedd o garchar, achosion sifil fel materion teuluol ac ysgariadau, y rhan fwyaf o anghydfodau eiddo lle nad yw'r gwerth sylfaenol yn y fantol yn fwy na 50,000 o rwblau (ac eithrio achosion etifeddiaeth ac achosion sy'n ymwneud â hawliau eiddo deallusol) ac anghydfodau ynghylch defnyddio eiddo sy'n eiddo ar y cyd.
 - ii. Llysoedd Dosbarth - Mae llysoedd dosbarth yn bodoli ar lefelau islaw rhanbarth ffederal, gan gynnwys ar lefel bwrdeistref a dinas. Maent yn ymdrin ag achosion sifil a throseddol nad ydynt yn cael eu clywed gan y llys ynadon.
 - iii. Llysoedd Rhanbarthol - Mae llysoedd rhanbarthol yn bodoli ym mhob un o'r 83 rhanbarth ffederal yn Rwsia ac maent yn ymdrin ag achosion sifil mwy cymhleth o achosion troseddol lle mae posibilrwydd o fwy na thair blynedd o garchar. Maent hefyd yn clywed achosion sy'n ymwneud â chyfrinachau gwladol ac achosion troseddol lle mae gan y cyhuddedig statws arbennig fel bod yn aelod o'r Cynulliad Ffederal neu fod yn farnwr.
 - iv. Llysoedd apêl⁴⁰ - Mae llysoedd apêl yn clywed apeliadau ar benderfyniad llysoedd awdurdodaeth cyffredinol (ar natur y penderfyniad a wnaed a'r broses y cafodd ei wneud drwyddi)).
 - v. Llysoedd diddymu⁴¹ - Mae llysoedd diddymu yn clywed apeliadau ar y broses y gwnaed penderfyniadau llys apêl drwyddi. Nid yw'n clywed apeliadau ar natur y penderfyniad a wnaed.
- d. Llysoedd masnachol⁴² - Mae llysoedd masnachol yn delio ag anghydfodau mewn materion masnachol, megis anghydfodau cyfreithiol rhwng corfforaethau neu rhwng corfforaeth a'r wladwriaeth. Cyfeirir atynt weithiau hefyd fel llysoedd cyflafareddu. Mae llysoedd masnachol rhanbarthol ym mhob un o'r 83 rhanbarth ffederal yn Rwsia a restrir uchod sy'n ymdrin â'r treialon cychwynnol o anghydfodau masnachol. Uwchben y rhain, mae llysoedd masnachol apêl sy'n clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r llysoedd masnachol rhanbarthol. Uwchben y rhain mae llysoedd masnachol diddymu sy'n clywed apeliadau yn erbyn y llysoedd apêl. Dim ond apeliadau ar gymhwyso'r ddeddf a sut y gwnaed penderfyniad y mae'r llysoedd hyn yn eu clywed, nid ydynt yn ystyried apeliadau ar ba benderfyniad a wnaed.
- e. Llysoedd Milwrol - Mae system ar wahân o lysoedd milwrol sy'n ymdrin â phob mater troseddol ac achosion sifil sy'n deillio o weithredoedd a gyflawnwyd gan aelodau'r lluoedd arfog, yr heddlu, y gwasanaethau diogelwch a lluoedd mewnol fel y Rosguard. Mae llysoedd milwrol yn y 5

⁴⁰ [The judicial system of the Russian Federation and the prosecutor's office \(duma.gov.ru\)](http://duma.gov.ru)

⁴¹ [The judicial system of the Russian Federation and the prosecutor's office \(duma.gov.ru\)](http://duma.gov.ru)

⁴² [The Russian Judiciary \(Chapter 3\) - TELFA](#)

ardal filwrol neu fflyd Rwsia (Leningrad, Moscow, Canol, Dwyrain a De). Mae llysoedd milwrol hefyd mewn ardaloedd garsiwn sy'n is-adrannau o'r ardaloedd milwrol hyn.

Enghraifft o drefniant y mae angen ei gofrestru:

Mae barnwr Goruchaf Lys Rwsia yn cysylltu ag unigolyn sydd wedi'i leoli yn y DU ar ran Goruchaf Lys Rwsia ac yn gofyn iddo ysgrifennu at Ysgrifennydd Cartref y DU i holi am achosion llys diogelwch cenedlaethol sy'n parhau yn y DU. Yn gyfnewid am gydymffurfio â'r cais hwn, mae'r barnwr yn awgrymu y gallai ceisiadau eraill gael eu gwneud i'r unigolyn yn y dyfodol ac y gallai'r rhain arwain at daliad neu fudd materol arall.

Mae hwn yn drefniant cofrestradwy gan fod yr unigolyn yn cael ei gyfarwyddo gan endid penodol a reolir gan bŵer tramor (barnwr Goruchaf Lys Rwsia) i gynnal gweithgarwch yn y DU (ysgrifennu at Ysgrifennydd Cartref y DU).

Bydd rhaid i'r unigolyn gofrestru'r trefniant hwn o fewn 10 diwrnod iddo gael ei wneud ac ni fydd yn gallu cynnal unrhyw weithgarwch yn unol â'r trefniant, megis drafftio'r llythyr, cyn iddo gofrestru'r trefniant.

Pleidiau gwleidyddol wedi'u pennu fel endidau dan reolaeth Rwsia

42. Mae pleidiau gwleidyddol yn Rwsia yn sefydliadau y mae gan eu haelodau nodau a syniadau gwleidyddol tebyg. Mae pleidiau gwleidyddol yn cyflwyno ymgeiswyr ar gyfer etholiadau (gan gynnwys etholiadau arlywyddol, etholiadau'r Dwma Gwladol ac etholiadau awdurdod ffederal). Pan gaiff yr ymgeiswyr hyn eu hethol, byddant yn ffurfio rhan neu'r cyfan o'r Llywodraeth genedlaethol neu ffederal.

43. Pennir y pleidiau gwleidyddol canlynol a reolir gan Rwsia:

- a. Plaid Unedig Rwsia. Dyma'r blaid sy'n rheoli ffederasiwn Rwsia.
- b. Plaid Gomiwnyddol Rwsia.
- c. Plaid Rwsia Gyfiawn.
- d. Plaid Ddemocrataidd Ryddfrydol Rwsia.

Enghraifft o drefniant y mae angen ei gofrestru:

Mae gan blaid wleidyddol yn y DU gysylltiadau â phlaidd wleidyddol benodedig yn Rwsia. Mae aelod o'r blaid wleidyddol benodedig yn e-bostio'r blaid wleidyddol yn y DU i ofyn a all y blaid wleidyddol benodedig yn Rwsia roi cyflwyniad fideo ar waith eu plaid mewn cyfarfod lleol o blaid wleidyddol y DU. Os nad yw'r blaid wleidyddol yn y DU yn cytuno, mae'r blaid wleidyddol benodedig yn Rwsia yn awgrymu y gallai hyn gael effeithiau negyddol ar gysylltiadau'r pleidiau. Mae'r blaid wleidyddol yn y DU yn cytuno i roi cyflwyniad fideo yn eu cyfarfod lleol nesaf.

Mae hwn yn drefniant cofrestradwy gan fod y blaid wleidyddol yn y DU yn cael ei chyfarwyddo gan endid penodedig a reolir gan bŵer tramor (plaid wleidyddol benodol yn Rwsia) i gynnal gweithgarwch yn y DU (cynnal cyflwyniad fideo ar waith y blaid wleidyddol yn Rwsia).

Bydd angen i'r blaid wleidyddol yn y DU gofrestru'r trefniant hwn o fewn 10 diwrnod i ymrwymo iddo. Ni ddylent gynnal unrhyw weithgarwch yn unol â'r trefniant hwn cyn cofrestru'r trefniant.

